Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Asesiadau Anghenion y Boblogaeth Cyngor Atodol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol

Mawrth 2021



© Hawlfraint y Goron 2021 WG42455 ISBN Digidol 978-1-80195-224-8

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Negeseuon Allweddol | 3 |
| Disgwyliadau Cyffredinol o amgylch AABau | 4 |
| Ystyriaethau Themâu a Meysydd Polisi | 6 |
| Ymgysylltu, Tystiolaeth, Rhagamcanu a Llunio | 11 |
| ATODIAD A – Anghenion Plant a Phobl Ifanc | 15 |
| ATODIAD B – Awtistiaeth | 21 |
| ATODIAD C – Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | 23 |
| ATODIAD D – Y berthynas rhwng AABau ac Adroddiadau Sefydlogrwydd y Farchnad | 25 |
| ATODIAD E – Cymorth Pellach | 28 |

# Negeseuon Allweddol

| | |
|---|---|
| A1 | Nid yw'r cyngor atodol yn y ddogfen hon yn statudol. Dylid ystyried ei fod yn ychwanegol at y darpariaethau statudol yn Rhan 2 o'r Cod Ymarfer sy'n ategu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (“Cod Rhan 2”). |
| A2 | Mae i Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth (AABau) ddwy elfen, sef: asesiad o anghenion ac asesiad o ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion hynny. Rhaid i ganfyddiadau edrych tuag at y dyfodol ac ystyried y cyfnod cyfan hyd at yr adeg y cyhoeddir yr asesiad nesaf o'r boblogaeth (Ebrill 2027). |
| A3 | Ffocws clir yr AAB yw asesu anghenion iechyd, gofal a chymorth y boblogaeth ac mae'n darparu sail ar gyfer gwaith cynllunio a chomisiynu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRhau). Bydd yr AAB yn llywio prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau rhanbarthol drwy sail dystiolaeth ddibynadwy, glir a phenodol o anghenion a'r gwasanaethau a ddarperir. Dylai ein dull o asesu anghenion y boblogaeth fod yn uchelgeisiol ond yn gyflawnadwy. |
| A4 | Ni ddylid ystyried bod cynnal yr AAB yn ymarfer i fodloni Llywodraeth Cymru yn unig. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn offeryn allweddol i lywio'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal ar gyfer y rhanbarth yn integredig. Mae AABau yn gofyn am arweinyddiaeth glir a chefnogaeth aelodau'r BPRh a'r BPRh sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr AAB yn llywio'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau mewn ffordd ystyrlon a'i fod yn berthnasol, gan ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd er mwyn ystyried unrhyw newidiadau a wnaed neu a ragwelir. |
| A5 | Mae cydweithio a barn broffesiynol yn allweddol. Dylai tystiolaeth a chanfyddiadau gael eu llywio drwy'r ystod lawn o arbenigedd sydd ar gael ym mhob rhan o'r BPRh ac ymhlith ei bartneriaid, yn hytrach na'u drafftio gan unigolion ar eu pen eu hunain. |
| A6 | Mae ymgysylltu ystyrlon â'r cyhoedd a darparwyr hefyd yn hanfodol. Rhaid i unigolion, grwpiau a sefydliadau gael cyfle i gyfleu eu canfyddiadau o wasanaethau ac anghenion yn llawn. |
| A7 | Rydym yn ymwybodol o'r dirwedd partneriaeth ehangach lle mae BPRhau yn gweithredu, y mae nifer o'r themâu craidd a nodir yn y canllawiau statudol ar gyfer yr AAB yn berthnasol iddi. Mae BPRhau yn dal i allu dewis sut maent yn trefnu eu hunain a'u gwaith, gan gynnwys y rhyngwyneb â strwythurau partneriaeth eraill megis Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Chlystyrau Gofal Sylfaenol. Byddem yn annog partneriaethau i geisio egluro meysydd cyfrifoldeb a chytuno arnynt a, lle y bo'n bosibl, ddod ynghyd ac osgoi dyblygu gwaith. |
| A8 | Dylid ystyried bob AABau yn rhan o daith barhaus, gan adeiladu ar wybodaeth gadarn, ei mireinio ac ychwanegu ati, gan gynnwys gwybodaeth a gasglwyd yn ystod y cylch asesu cyntaf. |

# Disgwyliadau cyffredinol o ran AABau

## Sut i ddefnyddio'r cyngor hwn

- Mae'r cyngor hwn yn ategu'r gofynion statudol a nodir yn Rhan 2 o'r Cod Ymarfer ar gyfer AABau. Nid yw'n ychwanegu at yr wyth thema graidd benodol sy'n ofynnol o leiaf yn y Cod. Fodd bynnag, mae'n myfyrio ar rai meysydd ehangach, megis asesiadau tai, a all wella a llywio'r dystiolaeth a gyflwynir gennych.

- Yn dilyn ein sgyrsiau â BPRhau, rydym yn egluro'r disgwyliadau o ran y meysydd polisi canlynol: plant a phobl ifanc, awtistiaeth, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a'r amrywiaeth o wasanaethau a digonolrwydd, ystod a lefel gwasanaethau (a'r gydberthynas ag Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad, yn benodol yr 'asesiad o ddigonolrwydd').

- Byddwn yn cefnogi BPRhau yn ystod y misoedd sydd i ddod drwy gyfres o ddigwyddiadau, sgyrsiau ac adnoddau ehangach, y nodir rhai ohonynt yn Atodiad E.

## Cyd-destun

1. Rydym yn deall yr heriau sy'n gysylltiedig â chynnal AABau yn ystod y misoedd sydd i ddod, yn arbennig o ystyried y cymhlethdodau a wynebir o ganlyniad i bandemig COVID-19. Serch hynny, bydd dull gweithredu cyson yn amhrisiadwy i hwyluso gwaith cynllunio yn y dyfodol a sicrhau y gallwn gynllunio'n effeithiol ar gyfer adfer ar ôl y pandemig.

2. Rydym am weld BPRhau yn gweithredu yn unol ag ysbryd Deddf 2014 a dylai ein dull gweithredu fod yn uchelgeisiol ond yn gyflawnadwy. Dylai BPRhau anelu at gynnal asesiad cadarn ond rydym hefyd yn cydnabod y gallai'r amser a'r data sydd ar gael i chi gyfyngu ar yr hyn y gallwch ei gyflawni.

3. Mae'n rhaid i BPRhau a'u partneriaid fodloni'r gofynion yn Rhan 2 o'r Cod. Fodd bynnag, mater i'w benderfynu'n rhanbarthol yw sut y byddwch yn eu bodloni. Ni ddylech ystyried bod y cylch hwn o'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn dechrau o'r newydd ond, yn hytrach, dylech ystyried ei fod yn adeiladu ar wybodaeth a phrofiadau dilys, gan gynnwys yr Asesiad blaenorol o Anghenion y Boblogaeth, lle y bo'n berthnasol. Gall eich AAB adeiladu ar dystiolaeth o'r fath ynghyd â thystiolaeth y byddwch yn ei chasglu wedyn er mwyn llywio eich asesiad mewn ffordd ystyrlon sy'n llywio gweithgarwch comisiynu a chynllunio.

4. Mae gwaith adolygu, asesu a chynllunio parhaus yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn parhau i fod yn gyfredol ac yn effeithiol o ran gwella canlyniadau i bobl. Dylai eich BPRh sicrhau y gall gefnogi ei AAB fel adnodd byw, yn hytrach nag ymarfer 'amser a gorffen'. Mae'n rhaid adolygu'r wybodaeth a'r dystiolaeth ynddo yn rheolaidd. Bydd hyn, yn ei dro, yn sicrhau bod ymarferion AAB yn diweddaru gwybodaeth sydd ar gael yn hawdd, yn hytrach na chanolbwyntio ar gasglu data.

# Ystyriaethau Themâu a Meysydd Polisi

## Meysydd Polisi

5. Ar gyfer yr ail gylch hwn o'r AAB, nid ydym yn ychwanegu at yr wyth thema bolisi graidd bresennol yn Rhan 2 o'r Codau Ymarfer Statudol. Serch hynny, bydd angen i chi ystyried unrhyw ofynion deddfwriaethol neu bolisi diwygiedig sy'n ymwneud â nhw. Mae'r canlynol yn rhestr ddangosol ond nid cynhwysfawr o enghreifftiau:

   - Anabledd Dysgu – yn cyfrif am Anabledd Dysgu Rhaglen Gwella Bywydau a'r adroddiad 'Dim Drws Anghywir' mewn perthynas â gwasanaethau i oedolion ar gyfer plant ag anableddau dysgu.

   - Nam ar y Synhwyrau - yr angen am Swyddogion Adsefydlu ar gyfer Pobl â Nam ar eu Golwg. Mae rhywfaint o waith wedi'i wneud gan Fforwm Golwg Cymru a Chyngor Cymru i'r Deillion yn y maes hwn, y gellid ei ddefnyddio.

   - Pobl Hŷn. Bod yn ymwybodol o'r ymrwymiad i arddel a diogelu hawliau Pobl Hŷn fel y maent wedi'u hymgorffori yn Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Cyhoeddi a gweithredu Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio, ynghyd â mesurau ymarferol i ymgorffori'r egwyddorion hynny ar lefel ALl, yw rhai o'r camau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru o hydref 2021 ymlaen.

   - Gofalwyr Di-dâl. Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yn ymrwymo i wella'r gydnabyddiaeth a'r cymorth a roddir i ofalwyr di-dâl o bob oedran yng Nghymru. Mae ganddi bedair blaenoriaeth genedlaethol, sef adnabod a gwerthfawrogi gofalwyr di-dâl, rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth, cefnogi bywyd ochr yn ochr â gofalu a chefnogi gofalwyr di-dâl mewn addysg ac yn y gweithle.

   - Anabledd – Adeiladu ar yr Adroddiad ar effaith COVID-19 ar bobl anabl yng Nghymru, a gomisiynwyd drwy Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl Llywodraeth Cymru ac a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2020. Bwriedir i'r adroddiad hwn lywio'r broses o ddiweddaru fframwaith a chynllun gweithredu "Gweithredu ar Anabledd", sy'n dwyn ynghyd amrywiaeth o gamau sy'n cael eu cymryd ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru ac ar y cyd â'n partneriaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol.

   - Iechyd Meddwl – Wrth ystyried y maes hwn, dylech roi sylw i'r blaenoriaethau a nodir yn Law yn Llaw at Iechyd Meddwl: Cynllun Cyflawni 2019-2022 a'r cynllun Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc.

   - Dementia – Ystyried y weledigaeth glir o genedl sy'n deall dementia ac sy'n cydnabod hawliau pobl â dementia, sy'n eu gwerthfawrogi ac yn eu helpu i fyw mor annibynnol ag y bo modd yn eu cymunedau, fel y cyfeirir atynt yn Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia 2018-2022.

- Plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth gan gynnwys llesiant emosiynol a meddyliol – ystyried y disgwyliadau a nodir yn y fframwaith cymorth cynnar a chefnogaeth uwch ar gyfer anghenion emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â gwaith amlasiantaethol, a nodir yn [Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer iechyd meddwl a llesiant emosiynol](#).

- Dylai BPRhau hefyd fynd ati i ystyried Hawliau plant o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a gweithredu ar argymhellion yr adroddiad 'Dim Drws Anghywir' gan Gomisiynydd Plant Cymru. Dylech hefyd ystyried mynediad at gymorth Iechyd Meddwl i bobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal. Mae'n dal i fod yn broblem bod Awdurdodau Lleol yn rhoi therapïau a chymorth ehangach ar gontractau allanol, os nad oes darpariaeth ddigonol o ran gwasanaethau CAHMS na gwasanaethau eraill. Felly, mae'n hanfodol cynllunio'n ddigonol i ddiwallu'r anghenion hyn.

6. Rydym wedi ychwanegu ystyriaethau ehangach o ran Plant a Phobl Ifanc, Awtistiaeth, Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a Sefydlogrwydd/Digonolrwydd y Farchnad. Nodir y rhain ar wahân yn Atodiadau A – D.

## Themâu Ehangach

### Effaith COVID-19

7. Bydd eich AAB yn adeiladu ar rywfaint o'r wybodaeth a gasglwyd gennych wrth adolygu eich cynlluniau dros y flwyddyn ddiwethaf yng ngoleuni'r pandemig. Bydd angen iddo wahaniaethu rhwng effaith COVID-19 ar y boblogaeth a'i effaith ar y broses o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y gweithlu.

8. Mae'n amlwg bod COVID-19 wedi effeithio ar y boblogaeth gyfan ond mae wedi cael mwy o effaith ar iechyd a llesiant grwpiau penodol o'u cymharu â grwpiau eraill – er enghraifft, pobl hŷn, cymunedau lleiafrifoedd ethnig, pobl ag anabledd dysgu, pobl anabl, pobl â chyflyrau iechyd sylfaenol a phlant a phobl ifanc.

9. Mae'r cyfyngiadau symud a chyfnodau hir o unigedd wedi cael cryn effaith ar iechyd meddwl, iechyd corfforol a llesiant y rhai sydd wedi bod yn cysgodi a'r rhai mewn cartrefi gofal a threfniadau byw â chymorth, er enghraifft.

10. Dylai eich AAB hefyd adlewyrchu effeithiau 'COVID hir' ar eich poblogaeth ac ystod a lefel y gwasanaethau sydd ar gael i ddiwallu'r lefelau uwch hyn o angen. Yn y cyd-destun hwn, dylech ddechrau ystyried sut y bydd eich gwaith cynllunio yn hwyluso'r broses o adfer ar ôl y pandemig.

Dyletswydd economaidd-gymdeithasol

11. Wrth baratoi eich AABau, bydd angen i chi ystyried y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol newydd, a ddaw i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021. Bydd y ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus perthnasol roi sylw dyledus i anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol sy'n cynnwys cynllunio a chasglu gwybodaeth. Mae tudalennau gwe'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn cynnwys adnoddau a gydgynhyrchwyd sydd wedi'u defnyddio i helpu cyrff cyhoeddus i baratoi ar gyfer y ddyletswydd.

Yr angen i ddarparu gofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg

12. Nododd adborth o'r cylch diwethaf o AABau fod angen proffilio'r angen am ofal a chymorth a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg yn well, a chynnal asesiad mwy cadarn o ystod a lefel y gwasanaethau y bydd angen i BPRhau eu darparu er mwyn diwallu'r angen hwnnw. Mae hyn yn cynnwys nodi bylchau yn y ddarpariaeth. Rhoddir cyngor pellach yn Atodiad D.

Cysylltu â meysydd ehangach

13. Er y bydd eich asesiadau yn canolbwyntio ar anghenion iechyd a gofal cymdeithasol, byddant yn cysylltu â meysydd polisi ehangach sy'n torri ar draws trefniadau partneriaeth eraill megis Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol (tai) a Chlystyrau Gofal Sylfaenol. Mae'n bwysig eich bod yn ystyried y gwaith ehangach sy'n mynd rhagddo er mwyn llywio eich asesiad o anghenion, yn ogystal â sicrhau bod eich asesiadau chi yn llywio eu hasesiadau nhw.

14. Dylai BPRhau drafod â strwythurau partneriaeth eraill sut y byddant, gyda'i gilydd, yn sicrhau y cynhelir asesiad cadarn a chynhwysfawr o anghenion ar gyfer y boblogaeth a rennir ganddynt. Mater i chi yw penderfynu sut y byddwch yn gwneud hyn, ond mae manteision amlwg o ran cyfuno adnoddau, lleihau dyblygu, rhannu arferion a gwybodaeth. Bydd defnyddio gwybodaeth a gwaith eraill yn darparu sail dystiolaeth gyfannol ac, yn y pen draw, yn llywio'r gwaith o gynllunio a llunio gwasanaethau mewn ffordd gydgysylltiedig er mwyn creu sail dystiolaeth wirioneddol gyfannol.

15. Yn ymarferol, nid oes angen i'ch AAB ddyblygu'r hyn sydd wedi'i gynnwys mewn dogfennau asesu anghenion eraill ond lle mae rhyng-gysylltedd neu effaith â data a ddelir mewn asesiadau eraill, dylid cyfeirio at y rhain yn glir a'u dehongli mewn perthynas ag anghenion gofal a chymorth y boblogaeth yn eich AAB. Dylai eich ystyriaethau gynnwys:

- Hyrwyddo llesiant (a ddiffinnir yn Adran 2 o Ran 1 o Ddeddf 2014). Bydd angen i chi ystyried sut rydych yn gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wrth iddynt gynnal eu Hasesiadau o Lesiant.

- Anghenion iechyd gan gynnwys y gofynion ar GIG Cymru drwy Fframweithiau Cynllunio'r GIG a gyhoeddir bob blwyddyn mewn perthynas â'r broses Cynllunio Tymor Canolig Integredig.

- Mae cynlluniau clwstwr yn ffynhonnell gwybodaeth sensitif leol iawn am anghenion iechyd a llesiant cymuned, yr adnoddau sydd ar gael ac anghenion datblygu gwasanaethau iechyd a gofal ar gyfer y boblogaeth honno. Mae Cymru Iachach yn disgwyl gweld cysylltiadau cryf rhwng prosesau asesu anghenion poblogaeth a chynllunio a darparu gwasanaethau ar lefel clwstwr a BPRh.

- Anghenion tai. Bydd angen i chi ystyried anghenion y prif grwpiau â blaenoriaeth o ran tai a llety arbenigol (o leiaf), er mwyn i fuddsoddiad cyfalaf mewn modelau gofal â chymorth tai gael ei gynllunio'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys llety â chymorth, megis tai gofal ychwanegol, byw â chymorth ar gyfer oedolion ag anabledd a gofal preswyl mewn uned fach ar gyfer plant ag anghenion uwch. Gall hefyd gynnwys buddsoddiad ychwanegol mewn addasiadau er mwyn helpu pobl yn y grwpiau â blaenoriaeth i barhau i fyw'n annibynnol ac yn ddiogel yn eu cartref eu hunain.

16. Dylai BPRhau ddefnyddio'r asesiad 'Cynlluniau ac Amcanion Rhaglen' sy'n cael ei gynnal ar gyfer rhaglen Cyllid Cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig. Mae'n asesiad lefel uchel o'r angen am lety ar gyfer grwpiau â blaenoriaeth a strategaeth y BPRh ar gyfer diwallu'r angen hwnnw. Mae Asesiadau newydd awdurdodau lleol o'r Farchnad Dai Leol hefyd yn debygol o fod yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth.

## Cynnal a llunio eich AAB

17. Mae'r adrannau canlynol yn ymdrin â gweithgareddau rydym yn awyddus i barhau i'w cefnogi yn y flwyddyn sydd i ddod er mwyn eich helpu i gynnal a llunio eich AAB. Mae llawer iawn o ddata a deunydd eisoes ar gael i chi eu defnyddio ac mae rhagor yn cael ei ddatblygu. Mae'r rhain yn cynnwys tystiolaeth a gasglwyd drwy Ganolfannau Ymchwil, Gwella ac Arloesi, setiau data a ddelir gan Data Cymru a Phecyn Cymorth Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC).

18. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn eich helpu gyda phroses yr AAB yn y misoedd sydd i ddod. Mae cyfres o sgyrsiau, dosbarthiadau meistr wedi'u trefnu a sesiynau galw heibio hefyd yn cael eu cynllunio er mwyn rhoi eglurder lle y bo angen, hyrwyddo dysgu ar y cyd a nodi a datblygu adnoddau a chyfeirio atynt e.e. pecyn cymorth. Mae Atodiad E yn rhoi sylw manylach ond nid cynhwysfawr i rai o'r rhain.

19. Yn ddiau, bydd heriau a chyfyngiadau yn gysylltiedig â chynnal a llunio eich AAB a fydd yn gofyn am hunanfyfyrio gonest ynghylch y rhwystrau rydych wedi'u hwynebu.  Bydd rhannu'r myfyrdodau hyn yn agored â ni a BPRhau eraill yn ein galluogi i'ch helpu i'w goresgyn.

## Ymgysylltu, Cynnwys a Chyfranogi

20. Mae'r profiad o fyw a gweithio drwy bandemig COVID-19 wedi golygu bod angen mabwysiadu dull gwahanol o ddarparu gwasanaethau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Oherwydd cyfyngiadau COVID-19, ni fu'n bosibl cynnal gweithgareddau ymgysylltu traddoddiadol yn bersonol, wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, mae cymdeithas yn gyffredinol wedi croesawu'r cyfleoedd a'r manteision sydd wedi'u darparu drwy atebion digidol a'r cyfryngau cymdeithasol y gellid dadlau eu bod wedi cynnig mwy o gyfleoedd i gyrraedd pobl ac ymgysylltu â nhw nag a oedd ar gael cyn y pandemig. Wrth ddatblygu eich dull ymgysylltu, cynnwys a chyfranogi:

- gallwch adeiladu ar wybodaeth gadarn. Mae hyn yn cynnwys pennu llinell sylfaen ar gyfer yr ymarferion cynnwys a gynhaliwyd yn ystod y cylch cyntaf o'r AAB a oedd yn ceisio nodi beth oedd y materion roedd angen mynd i'r afael â nhw.

- byddwch yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau ac adnoddau cynnwys a fydd yn annog ac yn cefnogi ymgysylltu gan amrywiaeth eang o ddefnyddwyr gwasanaeth a grwpiau poblogaeth. Byddwch yn mabwysiadu dulliau ymgysylltu hyblyg a chreadigol er mwyn sicrhau'r lefel uchaf posibl o gyfranogiad. Bydd eich dull gweithredu yn gofyn i chi ystyried anghenion cyfathrebu penodol unigolion a grwpiau poblogaeth yn ofalus, er enghraifft plant a phobl ifanc (gan roi sylw i Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol), pobl ag anableddau dysgu, pobl â nam ar y synhwyrau (gan gynnwys Defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain) a phobl hŷn.

- byddwch yn cynnwys pob un o aelodau eich BPRh a'r rhai y maent yn eu cynrychioli yn y broses hon. Mae gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chanlyniadau yn gofyn am fewnbwn a syniadau gan bob partner. Mae'n rhaid eu hannog a'u helpu i siarad drostynt eu hunain a chyfrannu eu barn a'u profiadau.

- byddwch yn adeiladu ar eich gweithgarwch ymgysylltu parhaus â'r trydydd sector, darparwyr gwasanaethau a chymunedau lleol mewn ffordd ystyrlon. Mae eu gwybodaeth, eu setiau sgiliau a'u cysylltiadau â rhwydweithiau ehangach yn eu galluogi i gyrraedd trwch y boblogaeth. Sicrhewch eich bod yn cyfathrebu â nhw mewn ffordd sy'n hawdd i'w deall yn hytrach nag mewn ffordd rhy dechnegol er mwyn meithrin cyd-ddealltwriaeth a chreu darlun sy'n seiliedig ar wybodaeth.

## Ystyried Data a Thystiolaeth er mwyn llywio eich Asesiadau

21. Mae'n hanfodol nad ydych yn ystyried bod AABau yn ymarfer casglu data nac yn addasu’r dystiolaeth rydych yn ei chasglu er mwyn iddi gyd-fynd â naratif y penderfynwyd arno ymlaen llaw. Mae'n rhaid i BPRhau fod yn feiddgar, yn onest ac yn agored o ran eu canfyddiadau, gan nodi ble mae gwybodaeth yn gryf, yn wan neu'n anghyson neu lle nad yw ar gael.

22. Bydd hyn yn gofyn am ddulliau gweithredu ymarferol ac arloesol, a fydd yn adeiladu ar wybodaeth gadarn, yn myfyrio ar ffynonellau newydd ac yn sicrhau bod gennych strwythurau digonol i gasglu data a phrofiadau. Er enghraifft, adborth a gweithgarwch ymgysylltu sy'n deillio o'r AAB blaenorol, gan gynnwys gan sefydliadau a chymunedau eraill, yn ogystal â gohebiaeth gan y cyhoedd. Bydd hyn yn cynnwys setiau data a gwybodaeth cenedlaethol, gan weithio gyda sefydliadau megis Data Cymru (a'i gatalogau data ehangach) a phorth data Gofal Cymdeithasol Cymru Hafan – Arsyllfa Data Gofal Cymdeithasol Cymru.

23. Byddwch yn canolbwyntio'n bennaf ar ddadansoddi a dehongli'r wybodaeth hon, gan ddangos sut rydych wedi'i deall, sut y byddwch yn ei defnyddio a sut mae'n cysylltu â'r dirwedd ranbarthol a chenedlaethol. Lle ceir ‘bylchau’ mewn gwybodaeth mewn meysydd allweddol, rhaid tynnu sylw atynt a nodi camau i'w hunioni mewn adolygiadau yn y dyfodol. Byddwch yn symud y tu hwnt i ddadansoddiad disgrifiadol cyffredinol ac yn blaenoriaethu'r meysydd hynny ar gyfer gwaith dadansoddi manylach yn y dyfodol, er mwyn llywio eich gweithgarwch cynllunio a chomisiynu.

## Rhagamcanu, Tueddiadau a Meddylfryd Tymor Hwy

24. Dylid ystyried bod AABau yn storfa fyw o wybodaeth i'w hadolygu, adeiladu arni a'i defnyddio i lywio eich gweithgarwch cynllunio a chomisiynu gwasanaethau ehangach. Er mwyn gwneud hynny, bydd angen eu cynllunio gan feddwl am y dyfodol ac yn y tymor hwy.

25. Mae gwaith dadansoddi gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Archwilio Cymru ac eraill wedi nodi bod angen gwneud mwy i ddatblygu meddwl am y dyfodol. Mae'r meddylfryd hwn yn cyd-fynd â'r Agenda Sefydlogi ac Ailadeiladu sy'n datblygu a'r Papur Gwyn ar Ailgydbwyso Gofal a Chymorth. Bydd hefyd angen i chi ystyried y cysylltiadau â'r cynllun adfer iechyd a gofal cymdeithasol, ‘Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru – COVID-19: Edrych tuag at y Dyfodol’, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021.

26. Bydd hyn yn gofyn am waith cynllunio mwy soffistigedig yn eich BPRh, yn ogystal â dealltwriaeth ehangach o anghenion presennol, tueddiadau'r dyfodol a heriau polisi amlgenhedlaeth. Er enghraifft, dangos tystiolaeth bod tueddiadau'r dyfodol wedi'u hystyried a defnyddio technegau ar gyfer y dyfodol i ystyried cysylltiadau rhyngddynt, gan nodi'r goblygiadau i'ch rhanbarth, ei bobl a'r gwasanaethau sy'n eu cefnogi a'r effaith arnynt.

27. Mae adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol yn nodi'r tueddiadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol a allai effeithio ar Gymru yn y dyfodol a rhai o'r ffactorau a allai ddylanwadu ar gyfeiriad y tueddiadau hynny. Disgwylir i'r Adroddiad Tueddiadau nesaf gael ei gyhoeddi eleni. Amlinellodd Datganiad Gweinidogol diweddar gynlluniau ar gyfer y gwaith datblygu ac ymgysylltu mewn perthynas â'r adroddiad. Ceir dolenni i becynnau cymorth eraill yn Atodiad E. Bydd adnoddau megis y rhain yn dangos dealltwriaeth a dehongliad da o dueddiadau cenedlaethol a byd-eang a'r ffordd y gallent effeithio ar eich ardal.

28. Mae hwn yn faes lle rydym yn awyddus i'ch cefnogi yn y flwyddyn sydd i ddod, drwy ddigwyddiadau dysgu ar y cyd a thrwy gysylltu â chydweithwyr mewn Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r rhwydwaith cymorth y maent wedi'i ddatblygu.

## Llunio Asesiadau a Llywio Gwaith Cynllunio

29. Rydym yn cydnabod yr heriau lleol sy'n gysylltiedig â gwneud synnwyr o'r gwahanol ofynion i lunio asesiadau tebyg. Er nad oes unrhyw ofyniad statudol, mae Gweinidogion ers tro byd wedi nodi'n glir eu bod yn disgwyl i AABau gael eu llunio cyn mis Ebrill 2022. Bydd hyn yn rhoi amser i'r dystiolaeth a gyflwynir lywio Cynlluniau Ardaloedd Rhanbarthol, y disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2023. Bydd hyn hefyd yn cyd-fynd ag amserlenni statudol a bennwyd ar gyfer Asesiadau Llesiant ac Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad, y disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi y flwyddyn nesaf hefyd.

30. Rydym yn cydnabod y gall fod cyfleoedd i sicrhau bod AABau yn cyd-fynd yn llwyr â'r ymarferion ehangach hynny. Os bydd yr amgylchiadau yn mynnu hynny, efallai y bydd yn rhesymol ceisio addasiad bach i amserlenni eich asesiadau yn ôl yr angen. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl i unrhyw newidiadau i'r amseriad fod yn rhai bach, dim mwy nag ychydig wythnosau a dim ond pan fo'n gwbl angenrheidiol a bod cyfiawnhad priodol dros wneud hynny. Sut bynnag, byddem yn croesawu deialog rheolaidd â chi i weld sut mae eich ymarfer yn mynd a chynnig unrhyw gymorth lle y gallwn wneud hynny.

31. Fel sy'n ofynnol o dan Ran 2 o'r Cod, mae angen i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol gymeradwyo'r adroddiadau ar yr asesiadau o'r boblogaeth a'u cyhoeddi ar eu gwefannau. Mae'n rhaid anfon copi o'r adroddiad ar yr asesiad o'r boblogaeth at Weinidogion Cymru hefyd ar adeg ei gyhoeddi.

32. Felly, mae'n rhaid neilltuo amser yn amserlen eich asesiad er mwyn sicrhau ei bod wedi ymdrin â'r strwythurau corfforaethol priodol a dangos bod hyn wedi cael y cymeradwyaethau statudol sydd eu hangen. Chi sy'n gyfrifol am ddangos sut y caiff hyn ei gyflawni'n ymarferol.

# ATODIAD A   Anghenion Plant a Phobl Ifanc

## Cyd-destun

1. Cyflwynodd newidiadau i Ran 9 o'r Ddeddf y llynedd nifer o ddiwygiadau i'r diffiniad o blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth. Mae'r rhain bellach yn cynnwys plant a phobl ifanc:

   - ag anableddau a/neu salwch
   - sydd wedi cael profiad o ofal
   - y mae angen gofal a chymorth arnynt
   - sy'n wynebu'r risg o fod yn blant sy'n derbyn gofal,
   - ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol.

2. Mae'r thema plant a phobl ifanc yn cynnwys cefnogi trefniadau pontio integredig effeithiol ar gyfer symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Dylai hefyd gynnwys cymorth i blant a theuluoedd sy'n ymwneud â gwasanaethau asesu niwroddatblygiadol a chymorth ar ôl diagnosis os bydd unigolyn wedi cael diagnosis ac ymyriadau therapiwtig amlddisgyblaethol sy'n diwallu anghenion y plentyn orau.

## Ystyriaethau cyffredinol

3. Mae Anghenion Plant a Phobl Iau yn rhychwantu amrywiaeth o ystyriaethau ac maent yn gofyn am ddull gweithredu amlddisgyblaethol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn hytrach na dull gweithredu a arweinir gan wasanaeth. Mae'n rhaid i BPRhau weithio mewn cyd-destun strategol cyffredin sy'n cynnwys blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau awdurdodau i blant ac sy'n gweithio tuag at gyflawni'r blaenoriaethau hynny.

4. Mae ystyriaethau yn cynnwys blaenoriaethau cydgysylltiedig ac ehangach. Mae'r rhain yn cynnwys Hawliau plant o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (gweler pum egwyddor Fframwaith y Ffordd Gywir ar gyfer rhoi dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant ar waith), a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru, a gofynion llesiant (Atodiad B) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd angen i chi ystyried yr egwyddorion yn Cymru Iachach. Yn bennaf, yr angen i bwyso am wasanaethau yn agosach at y cartref, sy'n ateb y galw am Leoliadau y Tu Allan i'r Ardal.

5. Dylech hefyd ystyried yn llawn ganfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad Dim Drws Anghywir gan Gomisiynydd Plant Cymru a'r gwaith sy'n mynd rhagddo drwy Fframwaith NYTH Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc ac agenda Cymorth Niwroddatblygiadol. Dylai teuluoedd sy'n cynnwys plant ag amrywiaeth o anghenion gael gofal a chymorth di-dor a chyfannol sy'n eu helpu i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt, gan gynnwys llesiant emosiynol a meddyliol.

6. Er na ddylai BPRhau addasu unrhyw dystiolaeth i gyd-fynd â'r naratif, mae'n bwysig myfyrio ar werth a phwysigrwydd gwasanaethau gofal a chymorth integredig a, lle y bo'n gymwys, yr angen iddynt fod yn agosach at y cartref.

7. Bydd angen i chi fyfyrio ar gysylltiadau â maes Iechyd Meddwl yn fwy cyffredinol. Yn debyg i'r angen am wasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n agosach at y cartref, mae angen cyfatebol i ‘ddadfeddygoleiddio’ llwybrau Iechyd Meddwl i bawb ac yn arbennig blant a phobl ifanc lle nad ydynt bob amser yn briodol. Mae a wnelo llawer o'r problemau emosiynol a phroblemau iechyd meddwl a wynebir gan blant a phobl ifanc ag amgylchiadau cymdeithasol ac amgylcheddol.

8. Dylech hefyd ystyried effeithiau COVID-19 ar blant a phobl ifanc a'r rhai sy'n eu cefnogi. Gallwch ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd drwy arolwg Comisiynydd Plant Cymru, Coronafeirws a fi, er mwyn helpu i lywio eich dull o asesu effeithiau ac anghenion yn eich rhanbarth.

## Grwpiau allweddol i'w cynnwys o fewn y thema hon

- Plant ag Anghenion Cymhleth

  Dylai teuluoedd sy'n cynnwys plant ag amrywiaeth gymhleth o anghenion gael gofal a chymorth di-dor a chyfannol sy'n eu helpu i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt, gan gynnwys llesiant corfforol, emosiynol a meddyliol yn unol ag argymhellion yn adroddiad Dim Drws Anghywir Comisiynydd Plant Cymru ac argymhellion o'i hadroddiadau blynyddol.

  Mae'n hanfodol sicrhau na fydd Plant na Phobl Ifanc yn syrthio drwy'r rhwyd o ran darparu gwasanaethau. Felly, dylid sicrhau y gellir trosglwyddo anghenion gofal a chymorth yn ddidrafferth, er enghraifft rhwng Gofal Parhaus Plant a Gofal Iechyd Parhaus y GIG, rhywbeth sy'n cael ei nodi'n glir ym mhob un o'r fframweithiau sy'n diffinio'r ddwy set o drefniadau.

Mae Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc a Llywodraeth Cymru yn chwarae rôl hanfodol o ran dod â BPRhau ynghyd i ddysgu oddi wrth ei gilydd. Bydd angen iddynt barhau i gynnig cyfleoedd i ddysgu ar y cyd er mwyn ymateb yn effeithiol i anghenion y plant hyn a byddai defnyddio digwyddiadau dysgu ar y cyd i ystyried y materion hyn yn ddefnyddiol i lywio'r agenda hon.

- Llety diogel i blant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol cymhleth ar y pen uchaf

  Mae gan Lywodraeth Cymru flaenoriaeth newydd ar gyfer 2021-22 sy'n anelu at atal unigolion rhag cael eu cyfeirio'n ddiangen i ofal diogel neu ofal cleifion mewnol a hwyluso'r broses o'u rhyddhau o ofal diogel neu ofal cleifion mewnol.

  Mae BPRhau yn amcangyfrif bod tua 200 o blant ledled Cymru y mae angen gofal a chymorth preswyl ac arbenigol arnynt i ddiwallu anghenion 'ar y pen uchaf' (h.y. anghenion emosiynol ac ymddygiadol difrifol y gall fod ganddynt ddiagnosis sy'n gofyn am ymyriadau therapiwtig dwys).

  Y ffordd orau o ddiwallu'r anghenion hyn yw drwy ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol a gomisiynwyd ar y cyd, sy'n therapiwtig ei natur, a gyda mewnbwn disgyblaethol arall, yn ôl yr angen, i ddiwallu anghenion y plentyn. Dylai BPRhau ymgyfarwyddo â chanllawiau'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau i Deuluoedd, Plant a Phobl Ifanc ag Anghenion Cymhleth yn Integredig

- Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Nifer cynyddol sy'n cael eu rhoi mewn gofal neu'n cael eu mabwysiadu


  Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd benodol o dan Adran 75 o'r Ddeddf i sicrhau bod ganddynt ddigon o lety i ddiwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal, a dylai BPRhau fod yn ymwybodol o hyn ac unrhyw anghenion penodol o ran llety. Bydd BPRhau yn ymwybodol o'r ffocws ar deuluoedd er mwyn eu helpu i aros gyda'i gilydd yn ddiogel ac osgoi'r sefyllfa lle mae angen i blant dderbyn gofal neu gael mathau dwysach o gymorth.

  Mae hyn yn gofyn am wasanaethau integredig rhanbarthol i gefnogi teuluoedd. Mae gwasanaethau addysg a thai lleol, byrddau iechyd, y Sector Gwerth Cymdeithasol ac ymyriadau ataliol ehangach, megis Gwasanaethau Eirioli i Rieni a Chynadleddau Grŵp Teuluol, yn chwarae rolau allweddol o ran llywio'r angen am y gwasanaethau hyn. Dylid hefyd roi sylw arbennig i gymorth therapiwtig i blant sydd wedi'u mabwysiadu, y rhai sy'n agos at fod yng ngofal awdurdod lleol a phlant sydd wedi cael profiad o ofal. Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd wedi'u mabwysiadu. Er enghraifft, datblygu darpariaeth i blant ag anghenion cymhleth / ymddygiad heriol sy'n wynebu risg o fynd i mewn i lety diogel.

## Gwasanaethau Ataliol i hyrwyddo iechyd meddal a llesiant da


9. Mae Fframwaith Cymorth Cynnar a Chefnogaeth Uwch NYTH yn dangos manteision dull systemau cyfan o hyrwyddo iechyd meddwl a llesiant emosiynol da ar gyfer plant a phobl ifanc (Ffig.1). Bydd asesu a deall anghenion poblogaeth y plant a'r bobl iau hyn yn hwyluso dull amlddisgyblaethol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn hytrach na'r dull a arweinir gan y gwasanaeth.

10. Bydd ymgorffori'r fframwaith hwn yn gofyn am ddull gweithredu amlddisgyblaethol, gan ddefnyddio aelodau BPRhau estynedig, cysylltiadau â'r asesiadau llesiant ehangach sy'n cael eu cynnal gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (Ffig. 2) ac arbenigedd y Sector Cyhoeddus a'r Trydydd Sector. Bydd hefyd angen i chi fod yn ymwybodol o'r darpariaethau statudol i hyrwyddo integreiddio gwasanaethau ar gyfer llesiant plant a phobl ifanc ag anghenion gofal a chymorth yn y ddau God Ymarfer (Rhannau 2 a 9) yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), ynghyd â'r rhai sy'n gymwys yn fwy cyffredinol ar draws yr agenda llesiant i gyrff cyhoeddus yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Rhannu Pwrpas Rhannu Dyfodol 3).




Ffigur 1 Diagram NYTH sy'n dangos meysydd, rhan ddeiliaid a themâu allweddol sy'n ymwneud â chymorth cynnar ac atal

11. Bwriedir i Ffigur 2 isod helpu BPRhau i ystyried eu ffocws, eu rôl a'u cyfraniad penodol wrth ystyried anghenion plant a phobl ifanc ochr yn ochr â ffocws a rôl benodol Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r cyfraniad penodol y gallant ei wneud. Nid yw wedi'i gynnwys yma fel esboniad diffiniol ond dylech gyfeirio ato fel enghraifft y gellid ei defnyddio i ddarparu man cychwyn i BPRhau a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried eu ffocws penodol, yn ogystal â'r meysydd y gallant gydweithio'n agos arnynt.




Ffigur 2 Y gydberthynas rhwng Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â Phlant a Phobl Ifanc

# ATODIAD B Anghenion o ran Awtistiaeth

1. Mae Rhan 2 o'r Cod Ymarfer yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, yn rhoi awtistiaeth o dan thema graidd ar y cyd ag anableddau dysgu. Fodd bynnag, mae gofynion penodol ynglŷn ag Awtistiaeth y mae angen eu hystyried yn llawn yn eich asesiadau ar draws yr agenda awtistiaeth. Felly, dylai eich AABau ystyried pobl ag awtistiaeth fel grŵp poblogaeth ar wahân o fewn themâu statudol pobl ag anableddau dysgu a phlant a phobl ifanc, gan gydnabod y gall fod gan unigolion gyflyrau ac anghenion sy'n cyd-ddigwydd.

2. Wrth ystyried darparu gofal a chymorth integredig i bobl awtistig, dylech gadw'r Cod Ymarfer ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth mewn cof. Mae'r Cod yn egluro'r amrywiaeth o wasanaethau a chymorth sydd eu hangen i ddiwallu anghenion pobl awtistig a'u gofalwyr mewn perthynas ag asesu a gwneud diagnosis, cael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant, cynllunio a monitro ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae Rhan 4 o'r Cod hwn yn nodi ei bod yn ofynnol cael arweinydd awtistiaeth rhanbarthol o fewn strwythur llywodraethu'r BPRh a datblygu timau strategol a gweithredol sy'n cynnwys pobl awtistig er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau.

3. Bydd hefyd angen i chi fod yn ymwybodol o agenda Cymorth Niwroddatblygiadol Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc a fydd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer y plant a phobl ifanc hynny ag Awtistiaeth. Bydd y ffrwd waith hon yn helpu i ddatblygu dull system gyfan ar gyfer plant a phobl ifanc â chyflyrau niwroddatblygiadol. Ei nod yw datblygu gweledigaeth a pholisi ar gyfer gwasanaethau cymorth niwroddatblygiadol yng Nghymru yn y dyfodol, sy'n cynnwys dull gweithredu sy'n cydnabod niwroamrywiaeth a'r gwahanol broblemau ymddygiadol sy'n gysylltiedig ag ef, a chefnogi teuluoedd. Mae hyn yn allweddol i lywio'r gwaith o sicrhau y gellir diwallu anghenion pob plentyn (p'un a yw o fewn y trothwy presennol ar gyfer gwasanaethau arbenigol neu o dan y trothwy hwnnw). Bydd hyn yn cysylltu â'r gwaith o roi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ar waith.

4. Mae'n rhaid i BPRhau sicrhau eu bod yn casglu gwybodaeth leol am anghenion eu poblogaeth awtistig leol, gan gynnwys plant a'u rhieni a'u gofalwyr. Wrth fynd ati i ategu'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer eich AAB, efallai y bydd angen i chi ystyried perthnasedd meysydd megis anghenion tai ac addysg. Dylech hefyd ystyried sut mae angen i asesiad o anghenion awtistiaeth gyd-fynd hefyd â gwybodaeth eich asesiad o blant a phobl ifanc a fframwaith cymorth cynnar a chefnogaeth NYTH, a'u hategu.

5. Bydd amrywiaeth o ffynonellau a gwasanaethau sy'n ymwneud ag awtistiaeth yn gallu eich helpu gyda'ch AAB. Mae'r rhain yn cynnwys Hyrwyddwyr Awtistiaeth, gofyniad yn y cod ymarfer ar gyfer awtistiaeth, arweinwyr Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig lleol a gwybodaeth o waith sy'n mynd rhagddo, gan gynnwys yr adolygiad o'r galw am wasanaethau niwroddatblygiadol a chapasiti'r gwasanaethau hynny. Mae ffynonellau data eraill yn cynnwys y canlynol:

    - Mae Cronfa Ddata SAIL (Prifysgol Abertawe) yn cynnwys setiau data sy'n amrywio o gofnodion meddygon teulu a data ysbytai a gwasanaethau brys i ddata iechyd meddwl, gwasanaethau cymdeithasol, addysg ac arolygon cenedlaethol.
    - SWCCIS – System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Bydd y Cod yn llywio'r meysydd y byddai angen eu rhoi yn y system er mwyn casglu tystiolaeth ar Awtistiaeth.
    - Defnyddio data gweithlu Llywodraeth Cymru i ddarparu gwybodaeth am y galw am wasanaethau a'u capasiti.
    - Cod Ymarfer ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth a chanllawiau cysylltiedig.
    - Mae Awtistiaethcymru.org yn cynnig gwybodaeth, cyngor ac adnoddau mewn perthynas ag awtistiaeth a datblygu gwasanaeth.
    - Amser aros safonol o 26 wythnos ar gyfer gwasanaethau niwroddatblygiadol – plant.
    - Setiau Data'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion i awdurdodau lleol.
    - Ysgolion – Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion.
    - Cyfrifiad Plant sy'n derbyn Gofal a Chymorth.
    - Data seiliedig ar ganlyniadau a data trwybwn gan IAS.
    - Fframwaith Cynllunio'r GIG.
    - Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth.
    - Autism Connections Cymru.

# ATODIAD C Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

## Materion Allweddol


1. Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i baratoi, cyhoeddi a gweithredu strategaethau lleol ar y cyd ar gyfer mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Cyhoeddwyd y canllawiau ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar gyfer strategaethau lleol er mwyn helpu awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol a'u partneriaid i ddatblygu strategaethau lleol sy'n cydymffurfio â'r gofynion ac yn hyrwyddo dibenion Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

2. Gyda byrddau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Rhanbarthol yn arwain yr agenda hon a gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn canolbwyntio ar feysydd cysylltiedig megis diogelwch cymunedol, mae angen i BPRhau fod yn glir ynghylch eu cyfraniad at yr agenda Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ehangach a'u hymateb iddi. Mae Ffigur 3 yn rhoi enghraifft o'r ffordd y gall y partneriaethau wneud cyfraniad pendant tuag at agenda Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Yn debyg i Ffigur 2, nid yw wedi'i gynnwys yma fel esboniad diffiniol ond dylech ei ddefnyddio i ddarparu man cychwyn i BPRhau, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a byrddau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol rhanbarthol ystyried eu ffocws penodol, yn ogystal â'r meysydd y gallant gydweithio'n agos arnynt.

3. Dylai gwybodaeth a gwaith dadansoddi a geir mewn AABau ganolbwyntio ar anghenion iechyd, gofal a chymorth yr unigolion hynny (oedolion a phlant) y mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio arnynt. Bydd hefyd angen i chi ystyried anghenion llety'r rhai sy'n dianc rhag camdriniaeth, gan gysylltu'r AAB â gwaith y Strategaeth Dai Leol a'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol.

4. Gallai'r wybodaeth hon helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu strategaethau a darpariaeth leol ar gyfer atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a darparu gwasanaethau yn y maes hwnnw.

5. Felly, mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn parhau i fod yn thema graidd yn y Cod, ond cydnabyddir nad yw nifer o'r nodweddion a'r ffactorau sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn rhan o gylch gorchwyl yr AAB na'r BPRh.




Ffigur 3 Y gydberthynas rhwng Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Rhanbarthol mewn perthynas ag agenda Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

# ATODIAD D Y gydberthynas rhwng AABau ac Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad

## Digonolrwydd, ystod a lefel gwasanaethau gofal a chymorth

1. Wrth gynnal eu Hasesiadau o Anghenion y Boblogaeth, bydd angen i BPRhau ystyried y gofynion newydd o ran adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad a'r berthynas rhwng y rhain â'r AABau a Chynlluniau Ardal. Bydd angen i BPRhau gyfeirio at y cod ymarfer a'r canllawiau statudol ar gyfer adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021.

2. Mae i adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad ddwy elfen, sef:

   - asesiad o ddigonolrwydd gwasanaethau gofal a chymorth o ran diwallu'r angen a'r galw am ofal cymdeithasol, fel y'u nodir yn yr AAB (yr asesiad o ddigonolrwydd)

   - asesiad o sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau a reoleiddir sy'n darparu gofal a chymorth (yr asesiad o sefydlogrwydd y farchnad).

3. Yn gyffredinol, mae AABau yn ymdrin ag ochr y galw i'r farchnad gofal cymdeithasol ac mae Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad yn ymdrin â'r ochr gyflenwi i'r farchnad honno a bydd y ddau ohonynt yn helpu i lywio a llunio'r Cynllun Ardal strategol ar gyfer ardal y BPRh. Esbonnir y gydberthynas rhwng AABau, Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad a Chynlluniau Ardal ym mharagraffau 3.10 i 3.12 a'r Cod Ymarfer ar gyfer Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad.

## Yr Asesiad o Ddigonolrwydd

4. Mae cysylltiad arbennig o gryf rhwng yr asesiad o 'ystod a lefel' mewn AABau a'r asesiad o ddigonolrwydd mewn Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad. Dylai BPRhau ystyried sut mae'r rhain yn cyd-fynd â'i gilydd a'r ffordd orau o sicrhau dull cyson ac effeithlon o gynnal y ddau asesiad hyn.

5. Bydd yr asesiad o ddigonolrwydd yn cynnwys yr elfennau canlynol:

   - trosolwg o ddigonolrwydd a gaiff ei fesur yn erbyn yr AAB blaenorol, a fydd yn defnyddio unrhyw adolygiadau a gynhaliwyd ac a fydd yn canolbwyntio ar wersi a ddysgwyd

   - asesiad o'r ffordd y mae lefelau presennol o ofal a chymorth yn ateb y galw presennol, gan gysylltu ag ystod a lefel y gwasanaethau a nodwyd yn yr AAB presennol

- ystyried materion sy'n debygol o effeithio ar ddigonolrwydd y ddarpariaeth dros y pum mlynedd nesaf, gan gysylltu â'r AAB presennol a'r asesiad presennol o sefydlogrwydd y farchnad.


6. Esbonnir hyn yn fanylach ym mharagraffau 4.5 i 4.13 yn y Cod Ymarfer ar gyfer Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad.

7. Dylid nodi bod yr asesiad o ddigonolrwydd yn yr Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad yn cwmpasu gofal a chymorth, nid dim ond gwasanaethau a reoleiddir. Mae hyn yn adlewyrchu’r gofyniad mewn AABau i asesu ystod a lefel gwasanaethau gofal a chymorth, gan gynnwys gwasanaethau ataliol. Mae'n rhaid i'r asesiad o sefydlogrwydd y farchnad gwmpasu gwasanaethau a reoleiddir (fel gofyniad), ond mae'r cod ar gyfer Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad yn nodi'n glir y dylai hefyd gwmpasu gwasanaethau perthnasol eraill nad ydynt yn cael eu rheoleiddio sy'n darparu gofal a chymorth (gweler paragraffau 4.29 i 4.31 o'r cod ymarfer ar gyfer Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad).

## AABau, Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad a chomisiynu strategol

8. Cynhelir AABau a llunnir adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yn unol â'r un amserlen gyffredinol – h.y. bob pum mlynedd, a disgwylir i'r naill a'r llall gael eu cyhoeddi yn ystod hanner cyntaf 2022, er mwyn iddynt allu llywio'r set nesaf o Gynlluniau Ardal y disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi yn 2023. Ystyrir hyn yn fanylach yn y cod ymarfer ar gyfer Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y farchnad.

9. Rhaid i'r adroddiadau cyntaf ar sefydlogrwydd y farchnad gael eu cyhoeddi erbyn 1 Mehefin 2022, sy'n adlewyrchu'r ffaith y bydd angen cynnal yr AAB cyn i'r asesiad o ddigonolrwydd allu cael ei gwblhau a chyn i'r asesiad o ddigonolrwydd allu cael ei gynnal. Fodd bynnag, bydd angen cynnal dwy elfen gyntaf yr asesiad o ddigonolrwydd (yn arbennig yr adolygiad o ddigonolrwydd dros gyfnod yr AAB, ond hefyd yr asesiad o'r ffordd y mae'r lefelau cyfredol o ofal a chymorth yn ateb y galw presennol) ar yr un pryd â'r broses o baratoi'r AAB newydd. Bydd angen i BPRhau ystyried y ffordd orau o integreiddio a symleiddio’r ddwy broses asesu - er enghraifft, mewn perthynas ag ymgysylltu â dinasyddion a darparwyr.




Ffigur 4 Y berthynas rhwng Adroddiadau Sefydlogrwydd y Farchnad ac Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth o ran comisiynu a chynllunio rhanbarthol.

# ATODIAD E Cyngor a Chymorth Pellach

1. Yn seiliedig ar sgyrsiau rhwng swyddogion ac arweinwyr BPRhau, byddwch wedi rhannu'r hyn sy'n heriau ac yn gyfleoedd allweddol i gydweithio, yn eich barn chi, wrth inni symud i mewn i'r cylch nesaf o AABau.

## Cyfeirio a Chyngor

2. Er mwyn eich helpu i ddatblygu themâu, byddwn ni a phartneriaid ehangach yn cynnig amrywiaeth eang o gymorth, gweithgarwch ymgysylltu a mesurau eraill dros y misoedd sydd i ddod. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Teilwra ein dull o roi cyngor a gwybodaeth ymarferol ac adborth byrrach, adeiladu ar farn ac adborth o'r cylch diwethaf o asesiadau llesiant.
- Rhannu'r ffordd orau o'ch galluogi i feithrin cysylltiadau clir ac uniongyrchol â'n priod swyddfeydd. Rydych wed gofyn am hyn yn gyson yn eich adborth.

## Cymorth Ar-lein

- Pecyn Cymorth AAB Gofal Cymdeithasol Cymru – Mae'n cynnwys cysylltiadau â llawer o adnoddau data y mae eu dolenni wedi'u diweddaru.
- Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn datblygu adnodd SharePoint ar-lein. Caiff ei boblogi â deunyddiau cymorth ychwanegol yn ystod yr wythnosau nesaf.

## Rhannu Arferion Da

- Digwyddiad Cynllunio i'r Rhwydwaith (a hwylusir gan Gofal Cymdeithasol Gymru).
- Parhau â chyfarfod rhwydwaith Cymru gyfan o arweinwyr BPRhau.
- Dysgu ar y cyd / rhannu arferion da mewn perthynas â meysydd allweddol, a fydd yn cynnwys y canlynol:
    - Ymgysylltu
    - Dadansoddi Data
    - Rhagamcanu/Tueddiadau'r Dyfodol
    - Cyflwyno

- Digwyddiadau Thematig – y bwriedir iddynt ymdrin â meysydd polisi allweddol Manylion pellach i'w cadarnhau.

## Data ac Ymchwil

- Y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth
- Canolfannau Ymchwil ac Arloesedd
- Mae gwefan Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynnwys canllawiau cyffredinol ar ymchwil a data a Phorth Data Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol.
- Hefyd mae Llwyfan Adnoddau Cartref Gofal Cymru. Mae hwn yn llwyfan adnoddau ar-lein newydd i Staff Cartrefi Gofal a Staff Gofal Cartref er mwyn sicrhau y gallant gael gwybodaeth hanfodol a chyfredol yn hawdd.
- Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi datblygu Pecyn Cymorth Tri Gorwel
- Mae Llywodraeth y DU wedi datblygu canllawiau ychwanegol ar gynllunio ar gyfer y dyfodol a llunio cynlluniau rhagolwg
- Mae gwaith ehangach yn mynd rhagddo i ddatblygu Set Ddata a Chatalog Data Llesiant, sy'n cael eu datblygu gan Data Cymru. Fe'u defnyddir yn bennaf gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn eu Hasesiadau Llesiant.

## Data ac Ymchwil sy'n ymwneud yn benodol â COVID-19.

- Map byw o dystiolaeth am COVID-19. Mae'n cynnwys astudiaethau data a gwybodaeth ehangach am effeithiau economaidd-gymdeithasol ac effeithiau ar iechyd meddwl.
- Mae Sail Dystiolaeth Gofal Cymdeithasol Cymru am COVID-19 yn cynnwys amrywiaeth eang o wybodaeth, cyfeiriadau ac adnoddau i'r rhai yn y sector gofal cymdeithasol.

## Cymorth Ehangach

- Byddwn yn cysylltu â chyfarfodydd rhwydweithiau cenedlaethol, gweminarau pwnc-benodol a chyfarfodydd ar-lein sy'n ymwneud â Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Gan adeiladu ar y digwyddiadau ‘cynnwys’ a ‘hirdymor’ a gynhaliwyd ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2020.

- Byddwn hefyd yn cynnig ‘clinigau galw heibio’ rheolaidd i gynnig cyngor (gan gynnwys comisiynu dadansoddiadau o ddata llesiant), profi syniadau ac egluro gofynion o ran yr asesiadau llesiant a'r cynlluniau llesiant.